OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 2303 (Cy. 227)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Awst 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *29 Awst 2014* |

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3) i (6)*

Mae'r Rheoliadau a ganlyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 1924/2006 ac (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 87/250/EEC, Cyfarwyddeb y Cyngor 90/496/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/10/EC, Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 2002/67/EC a 2008/5/EC a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 608/2004(**2**) mewn darpariaethau penodol yn y Rheoliadau hyn gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y Rheoliad hwnnw fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972—

(a) o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod)(**3**);

(b) o ran y polisi amaethyddol cyffredin(**4**).

I'r graddau y gwneir y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer pwerau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**5**), mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol ag adran 48(4A)(**6**) o'r Ddeddf honno.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**7**) wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau a ganlyn.

(**1**) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p .51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).
(**2**) OJ Rhif L 304, 22.11.2011, t 18, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 78/2014 (OJ Rhif L 27, 30.1.2014, t 7).
(**3**) O.S. 2005/1971, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p. 32) .
(**4**) O.S. 2010/2690.
(**5**) 1990 p. 16.
(**6**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28).
(**7**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 596/2009 (OJ Rhif L 188, 18.7.2009, t 14).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan y canlynol—

(a) i'r graddau y mae'n ymwneud â rheoliad 2(3) ac Atodlen 1, paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**8**);

(b) i'r graddau y mae'n ymwneud â rheoliadau 13 a 14 ac Atodlenni 6 a 7—

(i) adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi;

(ii) adrannau 6(4), 16(1), 17, 18, 26, 45 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**9**), a pharagraffau 1 a 4(b) o Atodlen 1 iddi ac sydd bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru(**10**); a

(iii) adrannau 4(1), (2), (3), (4) ac (8) a 10 o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009(**11**); ac

(c) i'r graddau y mae'n ymwneud â gweddill y rheoliadau a'r Atodlenni, adrannau 6(4), 16(1)(e), 17(1) a (2), 26(3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ac sydd bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Ac eithrio fel y darperir ym mharagraffau (4) i (6), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 13 Rhagfyr 2014.

(4) At ddibenion y darpariaethau a ganlyn, daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 19 Medi 2014—

(a) rheoliad 4;

(b) rheoliad 12 ac Atodlen 4 i'r graddau (drwy gymhwyso, gyda rhai addasiadau, ddarpariaethau penodedig yn y Ddeddf) y maent yn galluogi hysbysiad gwella i gael ei gyflwyno i berson yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gydymffurfio â'r ddarpariaeth yn FIC a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 5 ac yn galluogi apêl i gael ei gwneud yn erbyn hysbysiad o'r fath ac ymdrin â'r apêl honno, a'i gwneud yn drosedd i fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwella o'r fath;

(c) rheoliad 14 i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 1 o Atodlen 7;

(d) Atodlen 2;

(e) Rhan 1 o Atodlen 5; ac

(f) Rhan 1 o Atodlen 7.

(5) At ddibenion y darpariaethau a ganlyn, daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 13 Rhagfyr 2016—

(a) Rhan 3 o Atodlen 5; a

(**8**) 1972 p.68 Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 a'i ddiwygio gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 ac O.S. 2007/1388.

(**9**) 1990 p.16 Diwygiwyd adran 6(4) gan baragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p. 40) a pharagraff 10(1) a (3) o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 ("Deddf 1999") a'i diddymu'n rhannol gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2002/794. Diwygiwyd adran 16(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 17 gan baragraffau 8 a 12 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2011/1043. Diwygiwyd adran 18 gan baragraffau 8 a 13 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Diddymwyd adran 26 yn rhannol gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 45 gan baragraffau 8 ac 20 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 48(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.

(**10**) Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**11**) 2009 mccc 3.

(b) rheoliad 12 ac Atodlen 4 i'r graddau (drwy gymhwyso, gyda rhai addasiadau, ddarpariaethau penodedig yn y Ddeddf) y maent yn galluogi hysbysiad gwella i gael ei gyflwyno i berson yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gydymffurfio â'r ddarpariaeth yn FIC a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 5 ac yn galluogi apêl i gael ei gwneud yn erbyn hysbysiad o'r fath ac ymdrin â'r apêl honno, a'i gwneud yn drosedd i fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwella o'r fath.

(6) At ddibenion Rhan 2 o Atodlen 6, a rheoliad 13 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o Atodlen 6, daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 13 Rhagfyr 2018.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

## Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "a gynigir i'w werthu" yr un ystyr a roddir i "offered for sale" yn Erthygl 44 ac mae "cynnig gwerthu" ("*offers for sale*") i'w ddehongli yn unol â hynny;

mae i "arlwywr mawr" yr ystyr a roddir i "mass caterer" yn Erthygl 2(2)(d) ac mae "arlwywyr mawr" ("*mass caterers*") i'w ddehongli yn unol â hynny;

ystyr "awdurdod bwyd" ("*foodauthority*") yw—

(a) cyngor sir;

(b) cyngor bwrdeistref sirol;

mae i "bwyd wedi ei ragbecynnu" yr ystyr a roddir i "prepacked food" yn Erthygl 2(2)(e);

ystyr "Cyfarwyddeb 1999/2/EC" ("*Directive 1999/2/EC*") yw Cyfarwyddeb 1999/2/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ar fwydydd a chynhwysion bwydydd sydd wedi eu trin ag ymbelydredd ïoneiddio(**12**);

mae i "cyfrwng cyfathrebu o hirbell" yr ystyr a roddir i "means of distance communication" yn Erthygl 2(2)(u);

mae i "defnyddiwr terfynol" yr ystyr a roddir i "final consumer" ym mhwynt 18 o Erthygl 3 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd;

ystyr "y Ddeddf" ("*theAct*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "FIC" ("*FIC*") yw Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 1924/2006 ac (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 87/250/EEC, Cyfarwyddeb y Cyngor 90/496/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/10/EC, Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 2002/67/EC a 2008/5/EC a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 608/2004;

mae i "gweithredwr busnes bwyd" yr ystyr a roddir i "food business operator" ym mhwynt 3 o Erthygl 3 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor;

mae i "parod i'w fwyta" yr un ystyr a roddir i "ready for consumption" yn Erthygl 2(2)(d); [F1]...

(**12**) OJ Rhif L 66. 13.3.1999, t 16, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1137/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 311, 21.11.2008, t 1).

mae i "wedi ei ragbecynnu i'w werthu'n uniongyrchol" yr un ystyr a roddir i "prepacked for direct sale" yn Erthygl 2(2)(e).

**[**[F2]ystyr "Rheoliad 828/2014" ("*Regulation 828/2014*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 828/2014 ynghylch y gofynion ar gyfer darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am absenoldeb glwten mewn bwyd neu fod llai o glwten yn bresennol ynddo; ac**]**

(2) Ac eithrio fel y darperir fel arall—

(a) mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Erthygl yn gyfeiriad at Erthygl yn FIC, a

(b) mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Atodiad yn gyfeiriad at Atodiad i FIC.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad at FIC, neu ddarpariaeth yn FIC (gan gynnwys cyfeiriad at Erthygl yn FIC neu Atodiad iddo ac y mae paragraff (2) yn gymwys iddo) **[**[F3]neu at Reoliad 828/2014 neu ddarpariaeth yn Rheoliad 828/2014,**]** mewn darpariaeth yn y Rheoliadau hyn a restrir yn Atodlen 1 yn gyfeiriad at y ddarpariaeth honno fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn rhl. 2(1) wedi ei hepgor (20.7.2016) yn rhinwedd Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(2)(a)(i)**

**F2** Geiriau yn rhl. 2(1) wedi eu mewnosod (20.7.2016) gan Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(2)(a)(ii)**

**F3** Geiriau yn rhl. 2(3) wedi eu mewnosod (20.7.2016) gan Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(2)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 2 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

### Rhanddirymiad ynglŷn â llaeth a chynhyrchion llaeth

**3.** Nid yw'r gofynion a nodir yn Erthyglau 9(1) a 10(1) yn gymwys i laeth na chynhyrchion llaeth a gynigir mewn potel wydr pan fwriedir i'r botel wydr gael ei hailddefnyddio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 3 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

### Rhanddirymiad ynglŷn â briwgig

**4.**—(1) Nid yw'r gofynion a nodir ym mhwynt 1 o Ran B o Atodiad VI yn atal briwgig nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion hyn rhag cael ei osod ar y farchnad gan ddefnyddio dynodiad briwgig os bydd y marc cenedlaethol yn Rhan 1 o Atodlen 2 yn ymddangos ar y label.

(2) Mae Rhan 2 o Atodlen 2 yn gymwys i ffurf y marc cenedlaethol.

(3) Ym mharagraff (1)—

mae i "ar y label" yr un ystyr ag sydd i "on the labelling" ym mhwynt 2 o Ran B o Atodiad VI fel y'i darllenir gyda'r diffiniad o "labelling" yn Erthygl 2(2)(j);

mae "ei osod ar y farchnad" ("*placed on the market*") i'w ddehongli fel pe bai'n cymryd i ystyriaeth ystyr "placing on their national market" fel y'i defnyddir ym mhwynt 3 o Ran B o Atodiad VI.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 4 mewn grym ar 19.9.2014, gweler **a. 1(4)(a)**

### Bwydydd nad ydynt wedi eu rhagbecynnu etc. sy'n cynnwys sylwedd neu gynnyrch alergenaidd etc.

**5.**—(1) Caniateir i weithredwr busnes bwyd sy'n cynnig gwerthu bwyd perthnasol y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo roi ar gael y manylion a bennir yn Erthygl 9(1)(c) (labelu sylweddau neu gynhyrchion penodol sy'n peri alergeddau neu anoddefeddau) ynglŷn â'r bwyd hwnnw drwy unrhyw ddull y mae'r gweithredwr hwnnw'n ei ddewis, gan gynnwys ar lafar, yn ddarostyngedig i baragraff (3).

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fwyd perthnasol a gynigir i'w werthu i ddefnyddiwr terfynol neu i arlwywr mawr ac eithrio drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell ac sydd—

(a) heb ei ragbecynnu,

(b) wedi ei becynnu ar y fangre lle y gwerthir y bwyd ar gais y defnyddiwr, neu

(c) wedi ei ragbecynnu i'w werthu'n uniongyrchol.

(3) Pan fo gweithredwr busnes bwyd yn bwriadu rhoi'r manylion a bennir yn Erthygl 9(1)(c) ynglŷn â bwyd perthnasol ar gael ar lafar, a bod sylwedd neu gynnyrch a restrir yn Atodiad II neu sy'n deillio o sylwedd neu gynnyrch a restrir yn Atodiad II yn cael ei ddefnyddio fel cynhwysyn neu gymorth prosesu wrth weithgynhyrchu neu baratoi'r bwyd, rhaid i'r gweithredwr ddangos bod modd sicrhau manylion y sylwedd neu'r cynnyrch hwnnw drwy ofyn i aelod o'r staff.

(4) Rhaid i'r dangosiad a grybwyllir ym mharagraff (3) gael ei roi—

(a) ar label sydd ynghlwm wrth y bwyd, neu

(b) ar hysbysiad, bwydlen, tocyn neu label sy'n glir i'w weld gan brynwr arfaethedig yn y man lle y mae'r prynwr arfaethedig yn dewis y bwyd hwnnw.

(5) O ran bwyd perthnasol y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo, rhaid i'r manylion yn Erthygl 9(1)(c) a roddwyd ar gael gan weithredwr busnes bwyd gael eu rhoi ar gael â chyfeiriad clir at enw'r sylwedd neu'r cynnyrch a restrir yn Atodiad II—

(a) pan fo'r cynhwysyn neu'r cymorth prosesu perthnasol yn deillio o sylwedd neu gynnyrch a restrir yn Atodiad II, a

(b) pan fo'r manylion yn cael eu rhoi ar gael ac eithrio drwy ddull y darperir ar ei gyfer yn FIC.

(6) Yn y rheoliad hwn ystyr "bwyd perthnasol" ("*relevant food*") yw bwyd y mae cynhwysyn neu gymorth prosesu a restrir yn Atodiad II, neu sy'n deillio o sylwedd neu gynnyrch a restrir yn Atodiad II, wedi eu defnyddio wrth ei weithgynhyrchu neu ei baratoi ac yn dal yn bresennol yn y cynnyrch gorffenedig (hyd yn oed os yw mewn ffurf a addaswyd).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 5 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

### Bwydydd nad ydynt wedi eu rhagbecynnu etc. – gofyniad cyffredinol i'w henwi

**6.**—(1) Rhaid i weithredwr busnes bwyd sy'n cynnig gwerthu bwyd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo ddarparu'r manylion sy'n ofynnol o dan Erthygl 9(1)(a) (enw'r bwyd) fel y'i darllenir gyda'r canlynol—

(a) Erthygl 17(1) i (4), a

(b) yn achos bwyd a gynigir i'w werthu gan ddefnyddio dynodiad briwgig yn enw—

(i) Erthygl 17(5) a phwynt 1 o Ran B o Atodiad VI, a

(ii) pwynt 3 o Ran B o Atodiad VI fel y'i darllenir gyda rheoliad 4 ac Atodlen 2.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fwyd a gynigir i'w werthu i ddefnyddiwr terfynol neu arlwywyr mawr ac sydd—

(a) heb ei ragbecynnu,

(b) wedi ei becynnu ar y fangre lle y gwerthir y bwyd ar gais y defnyddiwr, neu

(c) wedi ei ragbecynnu i'w werthu'n uniongyrchol.

(3) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i fwyd a baratowyd i fod yn barod i'w fwyta gan ddefnyddiwr terfynol a gynigir i'w werthu i ddefnyddiwr terfynol gan arlwywyr mawr (boed mewn sefydliad arlwyo mawr lle y gwerthir yn bersonol i ddefnyddiwr terfynol ynteu drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell) fel rhan o'i fusnes fel arlwywr mawr.

(4) Rhaid i'r manylion ymddangos—

(a) ar label sydd ynghlwm wrth y bwyd, neu

(b) ar hysbysiad, tocyn neu label sy'n glir i'w weld gan brynwr arfaethedig yn y man lle y mae'r prynwr arfaethedig yn dewis y bwyd hwnnw.

(5) Nid yw paragraff (4) yn gymwys yn achos cynnig i werthu a wneir drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 6 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

## Bwydydd nad ydynt wedi eu rhagbecynnu etc. sy'n cynnwys cig a chynhwysion eraill

**7.**—(1) Rhaid i weithredwr busnes bwyd sy'n cynnig gwerthu bwyd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo ddarparu'r manylion sy'n ofynnol o dan Erthygl 9(1)(d) (swm cynhwysion penodol), fel y'i darllenir gydag Erthygl 22 ac Atodiad VIII, o ran y cynhwysion yn y bwyd sy'n gig.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fwyd (heblaw bwyd a bennir yn Atodlen 3) a gynigir i'w werthu i ddefnyddiwr terfynol neu arlwywr mawr, sy'n cynnwys cig ac unrhyw gynhwysyn arall ac sydd—

(a) heb ei ragbecynnu,

(b) wedi ei becynnu ar y fangre lle y gwerthir y bwyd ar gais y defnyddiwr, neu

(c) wedi ei ragbecynnu i'w werthu'n uniongyrchol.

(3) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i fwyd a baratowyd i fod yn barod i'w fwyta gan ddefnyddiwr terfynol a gynigir i'w werthu i ddefnyddiwr terfynol gan arlwywyr mawr (boed mewn sefydliad arlwyo mawr lle y gwerthir yn bersonol i ddefnyddiwr terfynol ynteu drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell) fel rhan o'i fusnes fel arlwywr mawr.

(4) Mae swm y cig sydd i'w bennu yn y manylion a grybwyllir ym mharagraff (1) i'w bennu drwy gymryd i ystyriaeth y darpariaethau ynghylch cyfanswm y cynnwys braster a meinwe gysylltiol ym mhwynt 17 o Ran B o Atodiad VII, gan gynnwys unrhyw addasiad tuag i lawr sy'n angenrheidiol mewn achos lle y mae cyfanswm y cynnwys braster a meinwe gysylltiol yn y bwyd yn fwy na'r gwerthoedd a ddangosir yn y tabl yn y pwynt hwnnw.

(5) Rhaid i'r manylion ymddangos—

(a) ar label sydd ynghlwm wrth y bwyd, neu

(b) ar hysbysiad, tocyn neu label sy'n glir i'w weld gan brynwr arfaethedig yn y man lle y mae'r prynwr arfaethedig yn dewis y bwyd hwnnw.

(6) Nid yw paragraff (5) yn gymwys yn achos cynnig i werthu a wneir drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell.

(7) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cig" ("*meat*") yw cyhyrau ysgerbydol rhywogaethau o famaliaid ac adar y cydnabyddir eu bod yn addas i'w bwyta gan bobl gyda'r feinwe y mae'n ei chynnwys yn naturiol neu feinwe ymlynol ond nid yw'n cynnwys cig a wahenir yn fecanyddol; ac

mae i "cig a wahenir yn fecanyddol" yr ystyr a roddir i "mechanically separated meat" ym mhwynt 1.14 o Atodiad I i Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cygnor sy'n nodi rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n deillio o anifeiliaid(**13**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 7 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

**Bwydydd a arbelydrwyd**

**8.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n gosod ar y farchnad, mewn swmp, gynnyrch y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo, sicrhau bod y dangosiad perthnasol yn ymddangos, ynghyd ag enw'r cynnyrch, ar arddangosiad neu hysbysiad uwchben y cynhwysydd y gosodir y cynhyrchion ynddo ar y farchnad neu wrth ochr y cynhwysydd hwnnw.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys—

(a) i gynnyrch a fwriedir i'r defnyddiwr terfynol neu i arlwywyr mawr sydd wedi ei drin ag ymbelydredd ïoneiddio, a

(b) i gynnyrch a fwriedir i'r defnyddiwr terfynol neu i arlwywyr mawr sy'n cynnwys cynhwysyn sydd wedi ei drin ag ymbelydredd ïoneiddio.

(3) Rhaid i unrhyw berson sy'n gosod ar y farchnad gynnyrch y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo sicrhau bod y dangosiad perthnasol yn ymddangos yn rhestr cynhwysion y cynnyrch hwnnw er mwyn dangos bod y cynnyrch wedi ei arbelydru.

(4) Mae paragraff (3) yn gymwys i gynnyrch a fwriedir ar gyfer y defnyddiwr terfynol neu arlwywyr mawr—

(a) sy'n cynnwys cynhwysyn cyfansawdd mewn achos lle y mae un o gynhwysion y cynhwysyn cyfansawdd hwnnw wedi ei drin ag ymbelydredd ïoneiddio, a

(b) y byddai, mewn perthynas â'r cynhwysyn cyfansawdd hwnnw, ddarpariaethau pwynt 2 o Ran E o Atodiad VII (sy'n nodi achosion lle nad yw rhestr o gynhwysion ar gyfer cynhwysion cyfansawdd yn orfodol) yn gymwys, oni bai am y gofyniad ym mharagraff (3).

(5) Y dangosiad perthnasol yw'r geiriau "irradiated" neu'r geiriau "treated with ionising radiation".

(6) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i'r canlynol—

(a) cynnyrch a fu'n agored i ymbelydredd ïoneiddio a gynhyrchwyd gan ddyfeisiau mesur neu arolygu, ar yr amod nad yw'r dogn a amsugnwyd yn fwy na 0.01 Gy yn achos dyfeisiau arolygu sy'n defnyddio niwtronau a 0.5 Gy mewn achosion eraill, ar lefel ynni

(**13**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t 55, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 633/2014 (OJ Rhif L 175, 16.6.2014, t 6).

ymbelydredd uchaf o 10 MeV yn achos pelydr X, 14 MeV yn achos niwtronau a 5 MeV mewn achosion eraill, neu

(b) cynnyrch a baratoir i gleifion y mae arnynt angen deietau sterilaidd o dan oruchwyliaeth feddygol.

(7) Yn y rheoliad hwn—

mae i "cynnyrch" yr un ystyr ag sydd i "product" yng Nghyfarwyddeb 1999/2/EC;

mae "gosod ar y farchnad" i'w ddehongli drwy gymryd i ystyriaeth ystyr "placed on the market" fel y'i defnyddir yn Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 1999/2/EC;

mae i "mewn swmp" yr un ystyr ag sydd i "in bulk" yn ail is-baragraff Erthygl 6(1)(a) o Gyfarwyddeb 1999/2/EC; ac

mae i "ymbelydredd ïoneiddio" yr un ystyr ag sydd i "ionising radiation" yng Nghyfarwyddeb 1999/2/EC.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** A. 8 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

## Gorfodi

**9.** Dyletswydd awdurdod bwyd o fewn ei ardal ac awdurdod iechyd porthladd o fewn ei ddosbarth yw gorfodi'r Rheoliadau hyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** A. 9 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

## Trosedd

**10.**—(1) Mae person yn euog o drosedd os yw'n methu â chydymffurfio—

(a) ag unrhyw rai o ddarpariaethau FIC a bennir ym mharagraff (2), fel y'i darllenir gydag Erthyglau 1(3) a 6 ac is-baragraff cyntaf Erthygl 54(1)**[**[F4];**]**

(b) â rheoliad 5(5)**[**[F5]; neu**]**

**[**[F6](c) ag unrhyw ddarpariaeth yn Rheoliad 828/2014 a bennir ym mharagraff (3).**]**

(2) Y darpariaethau yn FIC yw—

(a) Erthygl 9(1)(c), fel y'i darllenir hefyd gydag Atodiad II;

(b) Erthygl 21(1)(a), fel y'i darllenir hefyd gydag Erthyglau 9(1)(c) a 18(1) ac Atodiad II;

(c) ail is-baragraff Erthygl 21(1), fel y'i darllenir hefyd gydag Erthyglau 9(1)(c) a 19(1) ac Atodiad II; a

(d) Erthygl 44(1)(a), fel y'i darllenir hefyd gydag Erthygl 9(1)(c) a rheoliad 5.

**[**[F7](3) Y darpariaethau yn Rheoliad 828/2014 yw—

(a) Erthygl 3(1) fel y'i darllenir gydag Erthyglau 1(3), 6, 7 ac 36(1) a (2) yn FIC ac Erthyglau 2 a 3(2) a (3) o Reoliad 828/2014 a'r Atodiad iddo;

(b) Erthygl 4 fel y'i darllenir gydag Erthygl 2.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F4** Rhl. 10(1)(a) wedi ei amnewid (20.7.2016) gan Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(3)(a)**

**F5** Gair yn rhl. 10(1)(b) wedi ei amnewid (20.7.2016) gan Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(3)(b)**

**F6** Rhl. 10(1)(c) wedi ei fewnosod (20.7.2016) gan Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(3)(c)**

**F7** Rhl. 10(3) wedi ei fewnosod (20.7.2016) gan Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(3)(d)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** A. 10 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

### Cosbi

**11.** Mae person sy'n euog o drosedd o dan reoliad 10 yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** A. 11 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

### Cymhwyso darpariaethau'r Ddeddf

**12.**—(1) Mae is-adrannau (1) a (2) o adran 10 o'r Ddeddf (hysbysiadau gwella) yn gymwys, gyda'r addasiad (yn achos adran 10(1)) a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 4, er mwyn—

(a) galluogi hysbysiad gwella i gael ei gyflwyno i berson yn ei gwneud yn ofynnol i'r person gydymffurfio ag unrhyw rai o'r darpariaethau a ganlyn—

(i) darpariaeth yn FIC [[F8]neu Reoliad 828/2014] a bennir yn Atodlen 5, i'r graddau y darperir ar ei chyfer yn adran 10 fel y'i cymhwysir gan baragraff (1) a'i haddasu gan Ran 1 o Atodlen 4;

(ii) rheoliad 5(3), (4) neu (5);

(iii) rheoliad 6(1) neu (4);

(iv) rheoliad 7(1), (4) neu (5); neu

(v) rheoliad 8(1) neu (3); a

(b) peri bod y methiant i gydymffurfio â hysbysiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) yn drosedd.

(2) Mae is-adrannau (1) i (8) o adran 32(**14**) o'r Ddeddf (pwerau mynediad) yn gymwys, gyda'r addasiadau (yn achos adran 32(1)) a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 4, er mwyn galluogi swyddog awdurdodedig o awdurdod bwyd neu awdurdod iechyd porthladd—

(a) i arfer pŵer mynediad er mwyn darganfod a oes neu a oedd darpariaeth yn FIC [[F9]neu Reoliad 828/2014] a bennir yn Atodlen 5 wedi ei thorri, i'r graddau y darperir ar ei chyfer yn adran 32(1)(a) fel y'i cymhwysir gan y paragraff hwn a'i haddasu gan Ran 2 o Atodlen 4;

(**14**) Diwygiwyd is-adrannau (5) a (6) o adran 32 gan baragraff 18 o Atodlen 2 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (p. 16).

(b) i arfer pŵer mynediad er mwyn darganfod a oes unrhyw dystiolaeth bod darpariaeth o'r fath wedi ei thorri; ac

(c) wrth arfer pŵer mynediad o dan ddarpariaethau adran 32 fel y'i cymhwysir gan y paragraff hwn, i arfer y pwerau yn is-adrannau (5) a (6) ynglŷn â chofnodion.

(3) Mae is-adrannau (1) a (6) o adran 37 o'r Ddeddf (apelau) yn gymwys, gyda'r addasiadau a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 4, er mwyn galluogi apêl yn erbyn penderfyniad i gyflwyno hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a).

(4) Mae adran 39 o'r Ddeddf (apelio yn erbyn hysbysiadau gwella) yn gymwys, gyda'r addasiadau (yn achos is-adrannau (1) a (3) o adran 39) a bennir yn Rhan 4 o Atodlen 4, er mwyn ymdrin ag apelau yn erbyn penderfyniad i gyflwyno hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a).

(5) Mae darpariaethau'r Ddeddf a bennir yng ngholofn 1 y tabl yn Rhan 5 o Atodlen 4 yn gymwys, gyda'r addasiadau a bennir yng ngholofn 2 o'r Rhan honno, at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(6) Mae paragraffau (1) i (4) heb ragfarn i gymhwyso adrannau 10, 32, 37 a 39 o'r Ddeddf at y Rheoliadau hyn at ddibenion ac eithrio'r rhai a bennir yn y paragraffau hynny.

**Diwygiadau Testunol**

**F8** Geiriau yn rhl. 12(1)(a)(i) wedi eu mewnosod (20.7.2016) gan Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(4)(a)**

**F9** Geiriau yn rhl. 12(2)(a) wedi eu mewnosod (20.7.2016) gan Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(4)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** A. 12 mewn grym ar 19.9.2014 at ddibenion penodedig, gweler **a. 1(4)(b)**

**I13** A. 12 mewn grym ar 13.12.2014 at ddibenion penodedig, gweler **a. 1(3)**

**I14** A. 12 mewn grym ar 13.12.2016 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **a. 1(5)(b)**

VALID FROM 13/12/2016

**Dirymiadau**

**13.** Mae'r Rheoliadau a restrir yn Atodlen 6 wedi eu dirymu i'r graddau a bennir.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** A. 13 mewn grym ar 13.12.2016 at ddibenion penodedig, gweler **a. 1(3)**

**I16** A. 13 mewn grym ar 13.12.2018 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **a. 1(6)**

**Diwygiadau canlyniadol a mân ddiwygiadau eraill i offerynnau statudol**

**14.** Mae Atodlen 7 yn cael effaith.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** A. 14 mewn grym ar 19.9.2014 at ddibenion penodedig, gweler **a. 1(4)(c)**

**I18** A. 14 mewn grym ar 13.12.2014 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **a. 1(3)**

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Awst 2014

## ATODLEN 1

Rheoliad 2(3)

### Darpariaethau y Rheoliadau hyn sy'n cynnwys cyfeiriadau newidiadwy at FIC [[F10]neu Reoliad 828/2014] yn rhinwedd rheoliad 2(3)

**Diwygiadau Testunol**

**F10** Geiriau yn Atod. 1 pennawd wedi eu mewnosod (20.7.2016) gan Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(5)(a)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Atod. 1 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

Rheoliad 2(1) ac eithrio'r diffiniad o "FIC" [[F11]a Rheoliad 828/2014]

Rheoliad 3

Rheoliad 4(1) a (3)

Rheoliad 5(1), (3), (5) a (6)

Rheoliad 6(1)

Rheoliad 7(1) a (4)

Rheoliad 8(4)(b)

Rheoliad 10

Paragraff 3 o Ran 2 o Atodlen 2

Atodlen 5

**Diwygiadau Testunol**

**F11** Geiriau yn Atod. 1 wedi eu mewnosod (20.7.2016) gan Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(5)(b)**

## ATODLEN 2

Rheoliad 4

### Y marc cenedlaethol ar gyfer y rhanddirymiad ynglŷn â briwgig

## RHAN 1

### Y marc cenedlaethol

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Atod. 2 Pt. 1 mewn grym ar 19.9.2014, gweler **a. 1(4)(d)**

☐ For UK market only

# RHAN 2

## Manylebau'r marc cenedlaethol

**1.** Caniateir defnyddio unrhyw fath o ffont ar gyfer y marc cenedlaethol cyhyd ag y bo'n glir i'w ddarllen.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I21** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 19.9.2014, gweler **a. 1(4)(d)**

**2.** Caniateir defnyddio ffont o unrhyw liw ar gyfer y marc cenedlaethol cyhyd ag y bo'n hawdd i'w weld.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I22** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 19.9.2014, gweler **a. 1(4)(d)**

**3.** Yn achos bwyd sydd wedi ei ragbecynnu, rhaid i faint y ffont a ddefnyddir ar gyfer y marc cenedlaethol beidio â bod yn llai na'r canlynol—

(a) yn achos pecyn neu gynhwysydd o faint y mae Erthygl 13(3) yn gymwys iddo, y maint ffont sy'n ofynnol ar gyfer manylion gorfodol o dan Erthygl 13(3), a

(b) yn achos unrhyw becyn neu gynhwysydd arall, y maint ffont sy'n ofynnol ar gyfer manylion gorfodol o dan Erthygl 13(2).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I23** Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 19.9.2014, gweler **a. 1(4)(d)**

**4.** Caiff y marc cenedlaethol gynnwys y testun Cymraeg "Ar gyfer marchnad y DU yn unig" yn ychwanegol at y testun Saesneg yn Rhan 1.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I24** Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 19.9.2014, gweler **a. 1(4)(d)**

# ATODLEN 3

Rheoliad 7

## Bwydydd nad yw rheoliad 7 yn gymwys iddynt

**1.** Cig amrwd nad ychwanegwyd cynhwysyn ato ac eithrio ensymau proteolytig.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I25** Atod. 3 para. 1 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

**2.** Cyw iâr wedi ei rewi ac wedi ei rewi'n gyflym y mae Erthygl 15 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008 yn nodi rheolau manwl ynglŷn â chymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif

1234/2007 o ran safonau marchnata cig dofednod(**15**) yn gymwys iddo ac nad yw ei gynhwysiad dŵr yn fwy na'r gwerthoedd sy'n dechnegol anochel a bennir yn unol â'r hyn y darperir ar ei gyfer yn yr Erthygl honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I26** Atod. 3 para. 2 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

**3.** Toriadau cig dofednod ffres, wedi eu rhewi ac wedi eu rhewi'n gyflym y mae Erthygl 20 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008 yn gymwys iddynt ac nad yw eu cynhwysiad dŵr yn fwy na'r gwerthoedd sy'n dechnegol anochel a bennir yn unol â'r hyn y darperir ar ei gyfer yn yr Erthygl honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I27** Atod. 3 para. 3 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

**4.** Brechdanau, rholion wedi eu llenwi a chynhyrchion wedi eu llenwi sy'n debyg o ran eu natur i frechdanau a rholion wedi eu llenwi, sy'n barod i'w bwyta heb ragor o brosesu, ac eithrio cynhyrchion sy'n cynnwys cig a werthir o dan yr enw "byrgyr", "byrgyr rhad" neu "hambyrgyr" (p'un a oleddfir hwy gan eiriau eraill neu beidio).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I28** Atod. 3 para. 4 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

**5.** Pitsas a chynhyrchion tebyg sydd â thopin.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I29** Atod. 3 para. 5 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

**6.** Unrhyw fwyd o'r enw "potes", "grefi" neu "cawl", p'un a oleddfir hwy gan eiriau eraill neu beidio.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I30** Atod. 3 para. 6 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

**7.** Bwyd sy'n gydosodiad o ddau neu ragor o gynhwysion na fu'n destun unrhyw broses neu driniaeth ar ôl cael ei gydosod, ac a werthir i'r defnyddiwr terfynol ar ffurf cyfran unigol y bwriedir iddi gael ei bwyta heb ragor o drin neu brosesu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I31** Atod. 3 para. 7 mewn grym ar 13.12.2014, gweler **a. 1(3)**

(**15**) OJ Rhif L 157, 17.6.2008, t 46, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t 671).

ATODLEN 4 Rheoliad 12

Cymhwyso ac addasu darpariaethau'r Ddeddf

# RHAN 1

## Addasu adran 10(1)

**1.** Yn lle adran 10(1) (hysbysiadau gwella) rhodder—

"(1) If an authorised officer of an enforcement authority has reasonable grounds for believing that a person is failing to comply with a provision specified in subsection (1A), the authorised officer may, by a notice served on that person (in this Act referred to as an "improvement notice")—

(a) state the officer's grounds for believing that the person is failing to comply with the relevant provision;

(b) specify the matters which constitute the person's failure so to comply;

(c) specify the measures which, in the officer's opinion, the person must take in order to secure compliance; and

(d) require the person to take those measures, or measures that are at least equivalent to them, within such period as may be specified in the notice.

(1A) The provisions are—

(a) a provision of Regulation (EU) No 1169/2011 of the European Parliament and of the Council on the provision of food information to consumers(**16**) specified in entry 1, 3, 5 to 11, 23 to 27, 29, 31 or 66 of the table in Part 2 of Schedule 5 to the Food Information (Wales) Regulations 2014 (as read with regulation 2(3) of, and Schedule 1 to, those Regulations), except to the extent that the provision applies to the mandatory particular relating to net quantity required by Article 9(1)(e) of Regulation (EU) No 1169/2011, as read with Article 23 of, and Annex IX to, that Regulation;

(b) a provision of Regulation (EU) No 1169/2011 of the European Parliament and of the Council specified in entry 2, 67 or 68 of the table in Part 2 of Schedule 5 to the Food Information (Wales) Regulations 2014 (as read with regulation 2(3) of, and Schedule 1 to, those Regulations), except to the extent that the provision applies to food information relating to quantity;

(c) any other provision of Regulation (EU) No 1169/2011 of the European Parliament and of the Council specified in Schedule 5 to the Food Information (Wales) Regulations 2014 (as read with regulation 2(3) of, and Schedule 1 to, those Regulations); **F12**...

(d) any of the following provisions of the Food Information (Wales) Regulations 2014—

(i) regulation 5(3), (4) or (5);

(ii) regulation 6(1) or (4);

(iii) regulation 7(1), (4) or (5); **F13**...

(iv) regulation 8(1) or (3)[**F14**; or

(**16**) OJ Rhif L 304, 22.11.2011, t 18, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 78/2014 (OJ Rhif L 27, 30.1.2014, t 7).

(e) a provision of Commission Implementing Regulation (EU) No 828/2014 on the requirements for the provision of information to consumers on the absence or reduced presence of gluten in food specified in the table in Part 4 of Schedule 5 to the Food Information Regulations (Wales) 2014 (as read with regulation 2(3) of, and Schedule 1 to, those Regulations).”**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F12** Geiriau yn Atod. 4 para. 1 wedi ei hepgor (20.7.2016) gan Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(6)(a)(i)**

**F13** Geiriau yn Atod. 4 para. 1 wedi ei hepgor (20.7.2016) gan Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(6)(a)(ii)**

**F14** Atod. 4 para. 1 wedi ei amnewid (20.7.2016) Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(6)(a)(iii)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I32** Atod. 4 para. 1 mewn grym ar 19.9.2014 at ddibenion penodedig, gweler **a. 1(4)(b)**

**I33** Atod. 4 para. 1 mewn grym ar 13.12.2014 at ddibenion penodedig, gweler **a. 1(3)**

**I34** Atod. 4 para. 1 mewn grym ar 13.12.2016 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **a. 1(5)(b)**

# RHAN 2

## Addasu adran 32(1)

**2.** Yn lle paragraffau (a) i (c) o adran 32(1) (pwerau mynediad) rhodder—

“(a) to enter any premises within the authority’s area for the purpose of ascertaining whether there is or has been on the premises any contravention of—

(i) a provision of Regulation (EU) No 1169/2011 of the European Parliament and of the Council on the provision of food information to consumers specified in entry 1, 3, 5 to 11, 23 to 27, 29, 31 or 66 of the table in Part 2 of Schedule 5 to the Food Information (Wales) Regulations 2014 (as read with regulation 2(3) of, and Schedule 1 to, those Regulations), except to the extent that the provision applies to the mandatory particular relating to net quantity required by Article 9(1)(e) of Regulation (EU) No 1169/2011, as read with Article 23 of, and Annex IX to, that Regulation;

(ii) a provision of Regulation (EU) No 1169/2011 of the European Parliament and of the Council specified in entry 2, 67 or 68 of the table in Part 2 of Schedule 5 to the Food Information (Wales) Regulations 2014 (as read with regulation 2(3) of, and Schedule 1 to, those Regulations), except to the extent that the provision applies to food information relating to quantity; and

(iii) any other provision of Regulation (EU) No 1169/2011 of the European Parliament and of the Council **[**F15or Commission Implementing Regulation (EU) No 828/2014 on the requirements for the provision of information to consumers on the absence or reduced presence of gluten in food**]** specified in Schedule 5 to the Food Information (Wales) Regulations 2014 (as read with regulation 2(3) of, and Schedule 1 to, those Regulations); and

(b) to enter any business premises, whether within or outside of the authority’s area, for the purpose of ascertaining whether there is on the premises any evidence of any contravention within that area of any such provisions;”.

**Diwygiadau Testunol**

**F15** Geiriau yn Atod. 4 para. 2(a)(iii) wedi eu mewnosod (20.7.2016) gan Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/664), rhlau. 1(3), **2(6)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I35** Atod. 4 para. 2 mewn grym ar 19.9.2014 at ddibenion penodedig, gweler **a. 1(4)(b)**

## RHAN 3

### Addasu adran 37(1) a (6)

**3.** Yn lle adran 37(1) (apelio) rhodder—

"(1) Any person who is aggrieved by a decision of an authorised officer of an enforcement authority to serve an improvement notice under section 10(1), as applied and modified by regulation 12(1) of, and Part 1 of Schedule 4 to, the Food Information (Wales) Regulations 2014, may appeal to the magistrates' court."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I36** Atod. 4 para. 3 mewn grym ar 19.9.2014 at ddibenion penodedig, gweler **a. 1(4)(b)**

**4.** Yn adran 37(6)—

(a) yn lle "(3) or (4)" rhodder "(1)", a

(b) ym mharagraff (a), hepgorer "or to the sheriff".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I37** Atod. 4 para. 4 mewn grym ar 19.9.2014 at ddibenion penodedig, gweler **a. 1(4)(b)**

## RHAN 4

### Addasu adran 39(1) a (3)

**5.** Yn lle adran 39(1) (apelio yn erbyn hysbysiadau gwella) rhodder—

"(1) On an appeal against an improvement notice served under section 10(1), as applied and modified by regulation 12(1) of, and Part 1 of Schedule 4 to, the Food Information (Wales) Regulations 2014, the court may either cancel or affirm the notice and, if it affirms it, may do so either in its original form or with such modifications as the court may in the circumstances think fit."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I38** Atod. 4 para. 5 mewn grym ar 19.9.2014 at ddibenion penodedig, gweler **a. 1(4)(b)**

**6.** Yn adran 39(3) hepgorer "for want of prosecution".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I39** Atod. 4 para. 6 mewn grym ar 19.9.2014 at ddibenion penodedig, gweler **a. 1(4)(b)**

# RHAN 5

## Cymhwyso ac addasu darpariaethau eraill yn y Ddeddf

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I40** Atod. 4 Pt. 5 mewn grym ar 19.9.2014 at ddibenion penodedig, gweler **a. 1(4)(b)**

| *Colofn 1*<br><br>*Y ddarpariaeth yn y Ddeddf* | *Colofn 2*<br><br>*Yr addasiadau* |
|---|---|
| Adran 3 (rhagdybiaethau bod bwyd wedi ei fwriadu i'w fwyta gan bobl) | Yn is-adran (1), yn lle "this Act" rhodder "the Food Information (Wales) Regulations 2014" |
| Adran 20 (troseddau oherwydd bai person arall) | Yn lle "any of the preceding provisions of this Part" rhodder "section 10(2), as applied by regulation 12(1) of the Food Information (Wales) Regulations 2014, or regulation 10 of those Regulations" |
| Adran 21(**17**) (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy) | Yn is-adran (1), yn lle "any of the preceding provisions of this Part" rhodder "section 10(2), as applied by regulation 12(1) of the Food Information (Wales) Regulations 2014, or regulation 10 of those Regulations"<br><br>Yn is-adran (2), yn lle "section 14 or 15 above" rhodder "regulation 10 of the Food Information (Wales) Regulations 2014" |
| Adran 22 (amddiffyniad cyhoeddi yng nghwrs busnes) | Yn lle "any of the preceding provisions of this Part" rhodder "regulation 10 of the Food Information (Wales) Regulations 2014" |
| Adran 29 (caffael samplau) | Ym mharagraff (b)(ii), ar ôl "under section 32 below", mewnosoder ", including under section 32 as applied and modified by regulation 12(2) of, and Part 2 of Schedule 4 to, the Food Information (Wales) Regulations 2014" |

(**17**) Diwygiwyd adran 21(2) gan O.S. 2004/3279.

